



**Pencampwyr
Tal-y-bont
tud 5**

tud 6
Helo 'Na!

tud 10
Bwyd i Bawb

tud 11
O Ysgol i Fusnes

tud 12
Chwaraeon

Dal i aros wedi saith mlynedd

Mae'n saith mlynedd ers y diwrnod tyngedfennol hwnnw ym mis Mehefin 2012 pan benderfynodd y Leri a'r Ceulan orlifo drwy waelod y pentref. Uwchlaw Tal-y-bont syrthiodd 200mm o law mewn 36 awr ar dir oedd eisoes yn drwm o ddŵr. Canlyniad hyn oedd i 27 o dai ddioddef llifogydd a chaewyd yr A487.

Ond dechrau yn unig oedd hyn i drafferthion y rhai a effeithiwyd. Am y 12 mis nesaf bu rhaid dygymod gyda cholli eiddo personol, byw mewn llety dros dro a styfnigrwydd cwmnïoedd yswiriant.

Gwelsom ein tai'n cael eu datgymalu a'u sychu, cyn eu hailadeiladu. Roedd yn gyfnod anodd tu hwnt, ond bu dau beth yn gymorth anfesuradwy.

Yn gyntaf, cefnogaeth y pentref. Rhoddwyd amser, arian a chymorth a helpodd hyn i liniaru effeithiau gwaethaf y llifogydd.

Yn ail, ffurfiwyd Grŵp Llifogydd Cymunedol Tal-y-bont (TCFG) – neu'r 'Llifogwyr' i lawer.

Trwy'r grŵp hunangymorth hwn y cawsom ein cysur mwyaf. O ddarparu cymorth seicolegol aeth y grŵp ati i sicrhau na fyddai digwyddiad tebyg yn cael yr un effaith ddinistriol ar ein cymuned.

Un o'n camau cyntaf oedd creu Cynllun Llifogydd Cymunedol, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol a'i gyflwyno i'r Cyngor Cymuned.

Rydym hefyd wedi llobio dros gael gwell systemau rhybuddio llifogydd, ac i'r perwyl hwn darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru fesuryddion afonydd ychwanegol ac mae Prifysgol Aberystwyth wedi gosod gwe-gamera i ganiatáu monitro o bell gyflwr yr afon ger y bont.

Ein prif broblem yw bod dalgylch y Leri a'r Ceulan yn gymharol fach ac yn ymateb yn gyflym iawn i law. Mae'n gwbl glir i ni bod pont y Leri ar yr A487 yn annigonol ar gyfer digwyddiadau eithafol o'r fath.

Ychwanegwch at hyn yr anghysondeb hanesyddol sydd yn golygu taw Cyngor Sir Ceredigion sy'n gyfrifol am yr afon a rheoli perygl llifogydd uwchlaw'r bont, a Chyfoeth Naturiol Cymru islaw, ac fe welwch darddiad dryswch ac oedi.

Derbyniwyd cymorth gan y ddau sefydliad; darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyllid ar gyfer cyfarpar i ddiogelu eiddo unigol a systemau rhybudd cynnar, a darparodd Cyngor Sir Ceredigion wasanaethau brys a chymorth yn syth wedi'r llifogydd.

Yn 2014 fe'n calonogwyd pan gafodd y Cyngor Sir arian ar gyfer Adroddiad Arfarnu Prosiect ar gyfer Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

Tal-y-bont. Cyhoeddwyd hwn yn 2016 ac ynddo argymhellwyd camau gweithredu penodol.

Ond yna - dim byd.

Dim ond ar ôl i'r Llifogwyr alw am gyfarfod rhwng yr holl fudd-ddeiliaid, Ben Lake (AS Plaid Cymru), Elin Jones (AC Plaid Cymru) ac Ellen ap Gwynn (Arweinydd y Cyngor) y cawsom wybod bod y

prosiect wedi cael ei wrthod ar sail cost, ac nad oedd bwriad comisiynu astudiaeth ddichonoldeb newydd.

Felly ble ry ni nawr, 7 mlynedd yn ddiweddarach? Yn fwy parod? Ydyn. Yn deall mwy? Ydyn. Teimlo'n rhwystredig? Ydyn, yn enwedig wrth i ni weld cynlluniau lliniaru llifogydd cyfagos yn cael eu hadeiladu.

Rydym yn deall yr anhawster cyllido ond nid yw hyn yn gwneud fawr ddim i leihau ein hofnau pan fydd y glaw yn dechrau a'r afonydd yn chwyddo.

Rydym yn teimlo ein bod wedi cael ein gadael ar ôl, ac oni bai bod rhywbeth yn cael ei wneud yn fuan, mi fydd 2012 arall yn siŵr o ddigwydd.

Mick Fothergill

(Cadeirydd Grŵp Llifogydd Cymunedol Tal-y-bont)



Diweddariad

Yn dilyn y cyfarfod gyda Ben Lake ac Elin Jones, derbyniwyd neges o swyddfa'r Aelod Seneddol i ddweud bod y Cyngor wedi cyflwyno cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru am gyllid i dalu am waith modelu ac i edrych ar yr adroddiad gwreiddiol o'r newydd. Ac ar y 6 Mehefin, cadarnhaodd y Cyngor bod y cais wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn yr un e-bost nodwyd hefyd bod Llywodraeth Cymru'n barod i drafod y bont dros y Leri ar yr A487.

Amser a ddengys a fydd hyn yn symud pethau yn eu blaenau.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont **832592**
Maes-y-deri: Karren Roberts **07800 806578**
Parsel Henllys: Lynwen Morgan **832498**
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch **832566**
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin **832230**
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl **(01654) 781260**
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl **832028**
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths **(01654) 781264**
Rhwydweithiau
cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont **832697**
Is-gadeirydd: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch **832566**
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont **832344**
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont **832093**
Tanysgrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont **832448**
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont **832076**
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAG

Taith Seiclo Gymdeithasol

Ymunwch â ni am *daith hwyl* 13 milltir
a helpu i godi arian i CRhA Ysgol Tal-y-bont

Dydd Iau, 4 Gorffennaf
Cwrdd ar y Patshyn Glas am 6.30 y.p., Gadael 6.45 y.p.
Diod cymdeithasol wedyn yn y Llew Gwyn

Llwybr: Tal-y-bont – Llandre – Borth – Ynyslas – Tre'r Ddôl – Tal-y-bont

£10 mynediad (neu fwy!), i'w dalu ar y diwrnod. Ew yn mynd at CRhA Ysgol Tal-y-bont
i wella ardaloedd allanol yr ysgol (e.e. offer garddio a chwarae, sied beics).

Croeso i bawb

Nid yw'r daith wedi'i thrifnu gan yr ysgol ac rydych yn cymryd chan ar risg eich hunain.
Unrhyw gwestiynau cysylltwch â Tom Cosson ar tomcosson@gmail.com

Angen mynd arlein?

Mae gan Cletwr gyfrifiadur cyhoeddus
y gallwch ei ddefnyddio.

Mae ar gael yn y cwtsh yn y caffi

Swyddi/cefnogaeth/gwybodaeth/ebyst

Cletwr

Cletwr, Tre'r Ddôl, Ceredigion. SY20 8PN
www.cletwr.com 01970 832113



Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad
neu'ch sefydliad yn
nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at
Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.com
01970 832478 o leiaf ddeng
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o
Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Rebecca ac Arthur gyda
Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.
Ni fydd rhifyn nawr tan fis
Medi. Gwyn a Fal
(gwynjenkins81@gmail.com)
fydd yn golygu'r rhifyn
hwnnw. Y dyddiad cau yw
6 Medi a bydd y papur yn y
siopau ar 13 Medi.

Dyddiadur

MEHEFIN

- 15 **Plismona Bro Aberystwyth** 10–11
Cletwr
- 16 **Bethel 11** Gwasanaeth Teulu
gyda Chinio Cawl i ddilyn yn y
Neuadd Goffa 12–2 Elw tuag
at Apêl Madagasgar Annibynwyr
Cymru
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Pedr, Elerch
Gwasanaeth ar y cyd o Gymun
Bendigaid i ardal Bro Padarn 3
Eglwys Ysbyty Cynfyn
- 19 **Taith yr henoed plwyf**
Llangynfelyn i Henffordd 8.30 y.b.
o Dre'r-ddôl
Gweithdy cynnyrch eco cartref
gyda Fflora 7–9 Cletwr
- 20 **Tai Chi 2** Ystafell Haearn,
Eglwysfach
Noson Agored i'r Gymuned 5.30–8
yn y Warchodfa Adar, Ynyshir
- 21 **Sesiwn Nos Wener** Patrobas
8 Y Llew Du
- 21 **Barbeciw Ffrindiau Cartref**
Tregerddan 6.30 Cartref Tregerddan
£5 i oedolion
- 22 **Mochyn Rhost a Noson Werin**
Awyr Agored 6–9 Fferm Ffwrnais
- 23 **Bethel 10**
Nasareth 10 Oedfa'r Ofalaeth ym
Mhenllwyn
Rehoboth 10 Oedfa'r Ofalaeth ym
Mhenllwyn
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Gweddi Hwyrrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30 Gwasanaeth Boreol
- 25 **Tennis Bwrdd 7** Ystafell Haearn,
Eglwysfach
Cymdeithas Treftadaeth
Llangynfelyn (Gareth William
Jones) 7.30 Llanfach
- 27 **Tai Chi 2** Ystafell Haearn,
Eglwysfach
- 28 **Caws, Gwin a Chân, Côr Merched**
Bro'r Mwyn ac artistiaid eraill 7
Eglwys Sant Pedr, Elerch
- 29 **Eglwys Sant Pedr, Elerch 10**
Cymun Bendigaid i ddathlu Dydd
Sant Pedr
- 30 **Bethel 10** Geraint Evans
Nasareth 10 Richard Lewis
Rehoboth 10 Judith Morris
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Gweddi Hwyrrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30 Cymun Bendigaid

GORFFENNAF

- 1 **Sefydliad y Merched Eglwysfach**
'Taith i Cape Horn, Chile' (Charlie
Falzon)
- 2 **Cyfarfod Blynyddol Papur Pawb**
7.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 2 **Sefydliad y Merched Taliesin**
'Gwehyddu gyda helyg' (Lesley
Jones)
- 7 **Bethel 10** Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Maria Evans
Rehoboth 10 Uno yn Nasareth
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Gweddi Hwyrrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Cymun Bendigaid
- 12 **Clwb Llyfrau 2.30** Ystafell Haearn,
Eglwysfach
- 13 **Sefydliad y Merched Taliesin** Taith i
Bridgnorth

- 14 **Bethel 11.15** Uno yn Nasareth
Nasareth 11.15 Bugail
Rehoboth 11.15 Uno yn Nasareth
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30
Bethesda, Tynant 2 Wil Griffiths
- 17 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r**
Cylch Taith a swper
- 21 **Bethel 10** Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 2 Wyn Morris
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Hwyrrol Weddi
- 28 **Bethel 10** Geraint Evans
Nasareth 10 Rhidian Griffiths
Rehoboth 11.15 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Gweddi Hwyrrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30

AWST

- 4 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach**
2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Cymun Bendigaid
- 11 **Bethel 10**
Rehoboth 11.15 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Gweddi Hwyrrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30
- 17 **Sefydliad y Merched Eglwysfach**
Brecwast/Coffi 10 Cletwr
- 18 **Bethel 10** Uno yn Rehoboth
Rehoboth 10 Beti Griffiths
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Hwyrrol Weddi
- 24 **Sioe Tal-y-bont 8.30** Caeau'r Llew
Du
- 25 **Bethel 10**
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Gweddi Hwyrrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30

MEDI

- 1 **Bethel 10** Uno yn Seion, Parch Peter
Thomas; 5 Uno yn Nasareth
Nasareth 5 Judith Morris
Rehoboth 10 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Cymun Bendigaid
- 2 **Sefydliad y Merched Eglwysfach**
Lluniau o Gymru o'r awyr (Medwyn
Parry)
Pwyllgor Eisteddfod 2020 7
Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 3 **Sefydliad y Merched Taliesin**
Consuriwr (David Lloyd)
- 8 **Bethel 10** Wyn Morris (C)
Nasareth 10 Oedfa'r Ofalaeth yng
Nghapel Seion
Rehoboth 10 Oedfa'r Ofalaeth yng
Nghapel Seion
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach
2.15 Gweddi Hwyrrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
9.30

Cletwr

Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu' 3–5
Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol'
9.30–10.30

Ar y Ffordd

Llongyfarchiadau i Carl Pritchard, mab Bev a Gareth y Llew Gwyn, ar basio'i brawf gyrru.

Cadair

Llongyfarchiadau i Gethin Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont, ar ennill y gadair yn Eisteddfod Ysgol Rhydypennau. Teitl ei gerdd oedd 'Cymreictod'.

Brysiwch wella

Gobeithio fod Mr Peter Manley, Swyn y Leri, Tal-y-bont, yn gwella wedi ei lawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Bronglais.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Tom ac Amy, Tŷ Rhosyn, Bont-goch, ar enedigaeth eu merch, ac i Mark a Claire, Ger-y-nant, Bont-goch, ar enedigaeth eu mab Harry Jay Egan, brawd i Rae.

Pennaeth

Llongyfarchiadau i Steffan Nutting, Tyhen Henllys, Tal-y-bont ar gael ei benodi'n Bennaeth Ffês 2 Ysgol Bro Idris, Dolgellau.

Bore coffi

Cynhaliwyd bore coffi a stondin planhigion yn yr Ystafell Haearn, Eglwysfach, ar fore Sadwrn, 4 Mai, i godi arian at y gost o gynnal a chadw mynwent y plwyf. Er mai ychydig ddaeth i gefnogi, fe godwyd swm sylweddol o £320 at yr achos.

Croeso

Mae Aled Fletcher a Manny Wale wedi dod i fyw i 1 Tanycoed - croeso mawr iddyn nhw.

Ar y radio

Braf oedd clywed Falyri Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont yn cael ei holi gan Siân Cothi ar ei rhaglen radio ar 5 Mehefin. Roedd y sgwrs yn ymwneud â Medal Syr T H Parry-Williams a ddyfarnwyd i Fal eleni gan yr Eisteddfod Genedlaethol. Cynhelir seremoni cyflwyno'r fedal ar lwyfan yr Eisteddfod ar ddydd Llun 5 Awst

**CYMDEITHAS
PAPUR PAWB
CYFARFOD
BLYNYDDOL**

Nos Fawrth 2 Gorffennaf
am 7.30
Neuad Goffa, Tal-y-bont
Croeso cynnes i bawb

Pobl a Phethe

**Priodas**

Ar ddydd Sadwrn, 1 Mehefin, priododd Glyn Jenkins, Bwthyn y Fron, Tal-y-bont gynt, â Jonelle yn Seland Newydd. Priodwyd y ddau yn Hobbiton, set ffilmiau ac atyniad twristaidd ger Matamata ar Ynys y Gogledd. Mae Glyn yn hoff iawn o waith coed ac fe gerfiodd lwy garu â llaw i bob un o'r gwsteion. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau, ac i Paul a Christine, ei rieni, a'r teulu oll yn Nhal-y-bont.

**Bedydd**

Ar ddydd Sul olaf Mai, bedyddiwyd Magw Ifan yng Nghapel Bethesda, Tynant o dan law y Parchedig Richard Lewis. Roedd y capel bach yn orlawn gyda theulu, ffrindiau ac aelodau wedi casglu ynghyd i fod yn dyst ac i ddathlu'r achlysur hapus hwn.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Myrna Bailey, Arosfa, Taliesin, sydd ddim wedi teimlo'n hwylus yn ddiweddar.

Eisteddfod yr Urdd

Enillodd Aelwyd yr Urdd JMJ Prifysgol Bangor chwech o wobrau am ganu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r fro, gyda chymorth tair cantores o Dal-y-bont – Betsan Siencyn, Catrin Huws a Medi Evans. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Llongyfarchiadau hefyd i Efa Humphreys, Maes-y-deri, Tal-y-bont (merch Glyn a May, ac wyres Shirley Humphreys, Maes-y-deri) a ddaeth yn ail yn y

gystadleuaeth linyddol i Flwyddyn 6. Perfformiodd hefyd yn y Parti Cerdd Dant a'r Gân Actol i ddysgwyr - a chael cyntaf yn y ddau!

Rhedeg

Llongyfarchiadau i Lynwen James, Bryn-Eglur am lwyddo i redeg marathon yn Lerpwl dros Wyl y Banc.

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm y casgliad i Gymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn eleni oedd £120, a diolch i bawb a gyfrannodd. Roedd y trefniadau yng ngofal Carys Briddon (trefnydd) ac Owen Jenkins (trysorydd).

Anrhydedd

Llongyfarchiadau mawr i Ann Jones, Frongoch, Tre'r Ddôl gynt, ar gael ei hethol yn Is-lywydd Anrhydeddus am Oes o Gymdeithas y Merlod a Chobiau Cymreig yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas a gynhaliwyd yn yr Alban yn ddiweddar.

Penblwyddi arbennig

Penblwydd hapus i Siân Weller, Dan-y-deri, Bont-goch, i Karen Evans, Maes-y-deri, Tal-y-bont, ac i Eifiona Evans, Glanaber, Bont-goch sydd, bob un, wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Eglwys St. Pedr, Bont-goch

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at ein noson flynyddol o Gaws, Gwin a Chân, a gynhelir ar nos Wener, 28 Mehefin am 7.00 pm, gyda chôr Merched Bro'r Mwyn ac artistiaid eraill i'n diddanu. Y llywydd eleni fydd Mrs Beatrice Lewis, Ponterwyd. Pris mynediad yw £8. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Trist yw nodi marwolaeth Harold Lewis, Mans y Tabernacl gynt. Roedd yn dad i John, Geraint, Delyth, Eleri a'r diweddar Bryn. Estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

- **yn bont** – rhwng yr eglwys a'r gymdeithas
- **yn fan cyfarfod** – i greu, i berfformio, i wrando, i ddysgu, i rannu
- **yn lle agored** – i bobl o bob oed a chefnidir a chred; cartref i'r gymuned

www.morlan.cymru
01970 617996
morlan.aber@gmail.com

morlan.cymru
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; post@morlan.cymru

LRJ
**Plymio
cyffredinol
a chynhaliath**

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk



Helpu'r di-gartref

Yn ystod gwasanaeth teulu Capel Bethel fore Sul 19 Mai, cyflwynodd plant yr Ysgol Sul sicc am £300 i'r Wallich, sef elusen sy'n helpu pobl di-gartref yng Nghymru sydd â changen yn Aberystwyth. Yn y llun mae Nia Davies, cynrychiolydd a gwirfoddolwraig o'r Wallich gydag Ela, Swyn, Alaw, Glain ac Eleanor. Siaradodd Nia am waith di-flino y Wallich sydd yn gweithredu o dan dri amcan craidd: cael pobl oddi ar y strydoedd; cadw pobl oddi ar y strydoedd a chreu cyfleoedd i bobl. Neges yr elusen yw bod pawb yn haeddu'r hawl i gartref, ond yn fwy na hynny, bod pawb yn haeddu'r hawl i deimlo'n ddiogel, i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i deimlo'n gadarnhaol am eu dyfodol. Bydd yr arian a gasglwyd yn ystod gwasanaeth noswyl Nadolig yn mynd i brynu nwyddau holl bwysig megis sachau cysgu, clustogau a phecynnau cysgu ar y stryd.

Non Jones

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Blynyddol 2019

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yn y Neuadd Goffa ar Nos Lun, 20 Mai gyda naw o'r Cynghorwyr yn bresennol yn ogystal â'r Clerc, Mr Rab Jones. Cytunwyd y bydd y Cyng. David Jones, Bwlchdyddwyallt yn Gadeirydd newydd y Cyngor ac mi fydd y Cyng. Nia Richards, Rhiwlan, yn Is-gadeirydd.

Penodwyd cynrychiolwyr ar gyfer Pwyllgor y Cylch Meithrin a Phwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru a chytunwyd hefyd pa Gynghorwyr fydd yn eistedd ar yr Is-bwyllgor Cyllid ac Is-bwyllgor y Fynwent.

Estynnwyd diolch gan y Cadeirydd, y Cyng. Enoc Jenkins, i'r Cynghorwyr a'r Clerc am eu gwasanaeth a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn cyn trosglwyddo'r gadair i'r Cyng. David Jones ar gyfer y cyfarfod misol.

Cyfarfod Misol Mis Mai

Cychwynnwyd y cyfarfod misol gyda'r Cadeirydd newydd, y Cyng. David Jones, yn diolch i'r Cynghorwyr am y fraint o gynrychioli'r Cyngor fel Cadeirydd ac yn diolch i'r cyn-Gadeirydd, y Cyng. Enoc Jenkins am ei waith caled yn arwain y Cyngor yn ystod blwyddyn anodd i'r gymuned.

Fainc wedi mynd ar goll

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Clerc am y fainc sydd wedi mynd ar goll ond nid oedd ganddo unrhyw newyddion cadarn am beth ddigwyddodd i'r fainc. Cytunwyd parhau gydag adolygiad o gyflwr y meinciau o fewn y gymuned a mynd ati i archebu dwy fainc newydd yn cynnwys un ar y ffordd gefn yn lle'r fainc sydd wedi diflannu.

Materion y Fynwent

Cafwyd diweddariad ar faterion yn y fynwent. Cytunwyd y bydd rhaid i'r Is-bwyllgor gwrdd yn ystod mis Mehefin i drafod manylion nifer o eitemau yn cynnwys estyniad i'r fynwent i greu rhagor o le ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Cynllunio

Cyflwynodd y Clerc fanylion cais cynllunio i godi estyniad i adeilad Y Lofa tu cefn i'r Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont ac yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cefnogi'r cais.

Materion Eraill

Trafodwyd nifer o faterion eraill yn cynnwys materion ffyrdd, materion torri gwair ac eitemau sydd angen sylw yn y cae chwarae. Mi fydd cyfarfod misol nesaf y Cyngor ar Nos Lun, 24 Mehefin 2019.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
rab.jones@btinternet.com 07831 402 002

Ysgol Tal-y-bont



Gwahodd i barti!



Sêr y Sgwteri



Dychmygiadau Cartograffig



Neges Heddwch ac Ewyllys Da



Ysgol Iach



Ymweliad arbennig

Ysgol Tal-y-bont

Ysgol Eco

Rydym yn falch iawn fod ein cysylltiadau gyda Malawi yn parhau yn yr ysgol. Yn ystod y mis mae plant Dosbarth Mrs Rhys wedi bod yn darllen llyfr "The Boy Who Harnessed The Wind". O ganlyniad i hynny cafwyd gweithdy arbennig gan Paul i ddeall yn well pwysigrwydd ynni cynaliadwy. Yn ystod y prynhawn bu'r plant yn adeiladu melinau gwynt allan o ddeunydd ail-gylchu ac roedd hi'n ddiddorol iawn mesur faint o drydan oedd pob tyrbîn yn ei greu.

Sioe Rala Rwdins

Ar hyn o bryd mae Rala Rwdins a'i ffrindiau wedi dychwelyd i theatrau Cymru! Rwtsh Ratsh Rala Rwdins oedd cynhyrchiad cyntaf oll Cwmni Theatr Arad Goch ac i ddathlu penblwydd y cwmni yn 30 oed, mae'r sioe ar daith unwaith eto. Roedd hi'n braf cael y cyfle i ymuno â'r cymeriadau ar antur yng Ngwlad y Rwla, ac roedd hi'n hwyl i weld y cymeriadau'n ceisio datrys cyfrinach fawr y Dewin Dwl! Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am noddi'r digwyddiad.

Dychmygiadau Cartograffig

Bu'r ysgol yn ffodus iawn o gael gwahoddiad i fod yn rhan o weithdy arbennig fel rhan o'r prosiect Dychmygiadau Cartograffig sy'n digwydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar hyn o bryd. Mae'r arddangosfa'n edrych ar leoliadau sydd mewn nofelau wedi eu lleoli yng Nghymru. Cafodd plant Blwyddyn 5 a 6 gyfle arbennig i gydweithio gyda'r awdur profiadol Siân Northey a chreu lleoliadau dychmygus eu hunain. Diolch am y cyfle i fod yn rhan o'r prosiect.

Ysgol Iach

Cafodd tîm tenis yr ysgol ddiwrnod arbennig yng Nghlwb Tennis Aberystwyth mewn digwyddiad a drefnwyd gan griw Ceredigion Actif a Tennis Cymru. Yn ystod y bore buom yn dysgu sgiliau newydd ac yn y prynhawn buom yn mwynhau chwarae yn yr haul braf. Llongyfarchiadau mawr i'r tîm ar ennill eu grŵp hefyd. Gwych!

Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gystadlu yng Ngŵyl Seiclo Aberystwyth eleni. Da iawn chi i gyd am eich ymdrech.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Arianna am ei llwyddiant yn cystadlu mewn digwyddiad dawnsio stryd ym Manceinion. Da iawn ti, dal ati.



Sêr y Sgwteri

Llongyfarchiadau mawr i sêr y mis yma. Cofiwch fod yn ofalus!

Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro

Llongyfarchiadau mawr i Caoimhe am gystadlu gydag Adran Tref Aberystwyth yn Eisteddfod yr Urdd eleni a da iawn ti am berfformiadau graenus ar y llwyfan.

Ymweliad arbennig

Pleser o'r mwyaf oedd cael croesawu'r Aelod Seneddol Ben Lake i'r ysgol yn ystod y mis. Cafwyd llawer o gwestiynau diddorol gan y plant a buom yn trafod pynciau amrywiol a phwysig fel Brexit, rygbi a hoff 'toppings' pizzas! Ar yr un diwrnod daeth Ifan o Ysgol Penweddig atom i gynnal gweithdy sgiliau rygbi gyda'r merched. Roedd hi'n braf gweld yr Aelod Seneddol yn torchi llewys ac yn ymuno gyda'r llinell amddiffyn hefyd!

Neges Heddwch ac Ewyllys Da

Mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da rymus a pherthnasol gan yr Urdd eleni ac roedd hi'n braf cael cyflwyniad graenus o'r neges gan ferched Blwyddyn 6 mewn gwasanaeth boreol.

Gwahodd i barti!

Ar brynhawn dydd Gwener, Medi 13, byddwn yn dathlu 50 mlynedd ers agor adeilad newydd yr ysgol. Croeso cynnes i chi ymuno gyda ni yn y dathlu. Tybed ydych chi'n adnabod rhywun o'r llun yma?

Diolch

Hoffwn ddiolch yn fawr i nifer o rieni am eu gwaith yn cymennu, trwsio a phlannu'n ddiweddar. Rydym yn ffodus iawn o gael y gefnogaeth yma.

Urddo Arvid

Ar ddydd Sadwrn 4 Mai, yng ngwesty'r Celt, Caernarfon, urddwyd Arvid Parry Jones yn aelod oes anrhydeddus i'r Gymdeithas Gwartheg Duon Cymreig yn eu pwyllgor blynyddol.

Derbyniodd Arvid yr anrhydedd hwn am ei wasanaeth ym maes ffotograffiaeth dros gyfnod o dros ddeugain mlynedd yn sioeau a seli'r Gymdeithas.

Dyma ychydig o'i hanes:

Ganwyd Arvid ym mhentre Cross Inn, Llanon, ac yn ei arddegau symudodd y teulu i fyw i Langeitho. Cafodd Arvid TB pan yn 11 oed a bu'n rhaid iddo dreulio dwy flynedd mewn sanatoriwm yn Llandrindod. Roedd yn amser pryderus iawn i'r teulu.

Ar ôl gadael Ysgol Uwchradd Tregaron aeth i weithio fel 'Store Man' yn garej Cwmann ger Llambod. Pan briododd Arvid â Gwenllïan yn 1971 roedd yn 'Stores Manager' yn Evans Motors, Caerfyrddin, sef prif gyflenwyr i British Leyland, ac roedd yn byw yn Bronwydd. Ond ar ôl naw mlynedd gyda'r cwmni daeth Llywodraeth Mrs Thatcher â diwedd i British Leyland, gyda llawer o ddiweithdra yn ei sgil.

Roedd Arvid yn lwcus ei fod wedi gwneud gwaith ffotograffiaeth - ambell i briodas, gwaith i'r Carmarthen Times a'r FUW yn Sir Gaerfyrddin.

Symudodd efo'r teulu yn ôl i gartref Gwenllïan ym 1980, a chafodd gwaith llawrydd efo'r Cambrian News, y Western Mail, yr NFU, a'r Farmers Guardian. Yn ogystal, mae e wedi tynnu llawer o luniau dros y blynyddoedd i'r Gymdeithas Gwartheg Duon Cymreig.

Mae ganddo ddau o feibion - Robert ac Arwyn - sydd wedi dilyn eu tad i fod yn ffotograffwyr i'r cyfryngau. Pob lwc iddynt i'r dyfodol.



Sioe Tal-y-bont

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Sioe nos Lun, 4 Mawrth.

Croesawyd pawb gan y Gadeiryddes, ac fe gafwyd adroddiad manwl a llewyrchus gan y swyddogion. Diolchodd Susan i bawb am y gefnogaeth dros y ddwy flynedd y bu'n gadeiryddes ac fe ddymunodd yn dda i'w holynydd, Enoc Jenkins.

Mae Janet Jones wedi ymddeol ar ôl ugain mlynedd o fod yn ysgrifenyddes y Sioe. Diolchwyd yn ddiffuant iddi a chyflwynwyd blodau iddi gan Susan. Croesawyd Carol Davies a fydd yn cymryd ei lle. Llywydd y Sioe eleni yw Ieuan Morgan, Rhos, Tal-y-bont.

Etholwyd y Swyddogion a ganlyn am 2019:

Cadeirydd: Enoc Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont

Is-gadeirydd: Dilwyn Jenkins, Wilerog Isaf, Y Borth

Trysorydd: Helen Ovens, Crud yr Awel, Taliesin

Trysorydd Cyffredinol: Howard Ovens, Frondirion, Tal-y-bont

Ysgrifenyddes Cyffredinol: Carol Davies, Wesley Terrace, Taliesin

Ysgrifenyddes Ffurflenni Cystadlu'r Babell: Marion Evans, Tynant, Tal-y-bont

Rheolwr y Maes: Emyr Davies, Llety Ifan Hen, Tal-y-bont

Cyfarwyddwraig y Sioe: Janet Jones, Llwynglas, Tal-y-bont

Bydd y Sioe'n cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 24 Awst ar gaeau'r Llew Du drwy ganiatâd caredig Teulu Richards, Glanleri.

Os hoffech stiwardio yn y Sioe, byddai'r swyddogion yn falch iawn o glywed gennych.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni yn ein pwyllgorau sy'n cael eu cynnal ar y nos Lun cyntaf bob mis yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 8 o'r gloch.

Pencampwyr Tal-y-bont

Llongyfarchiadau i blant Tal-y-bont, a gystadlodd yng Ngŵyl Seiclo Aberystwyth, dydd Sadwrn, 25 Mai, lle bu cystadlu brwd yn y rasys ysgolion yn ogystal a Phencampwriaethau Cymru. Yn eu mysg oedd Felix Hustings-Williams, Cian Dines, Steffan Dines, Finley Saycell, Cati Jenkins, Cai Jenkins, Elen Lloyd Williams ac Evan James. Heb anghofio reidiwr arall lleol, Gruff Lewis yn cynrychioli Ribble Pro Cycling, a ddaeth o drwch blewyn i fuddugoliaeth ym Mhencampwriaeth Ras Cylchffordd Cymru, gan setlo ar y fedal arian yn y wîb am y linell derfyn. Gweler tudalen 12 am ragor o anturiaethau Gruff.

Heio 'Na!

Y tro hwn yn y gyfres cawn ychydig o hanes Yvette Evans, Tal-y-bont, sydd bellach yn byw yn Nulyn.

Yn yr wythnosau yn arwain lan at refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn 2016, roeddwn yn tynnu coes rhai o'm ffrindiau drwy ddweud y byddwn yn gadael y wlad 'se pleidlais 'Brexit' yn ennill. Wrth gwrs, rydym i gyd yn gwybod beth oedd y canlyniad hwnnw, ond erbyn hyn rwyf wedi anghofio'n llwyr am y datganiad mawr yna!

Pan oedd Erthygl 50 yn cael ei weithredu, roeddwn yn gweithio yn adran Adnoddau Dynol Prifysgol Aberystwyth. Roeddwn yn wir mwynhau'r swydd yn ogystal â bywyd bob dydd yng nghanolbarth Cymru. Yn anffodus daeth swydd fy nghariad, George, i ben ac roedd hi'n gyfnod anodd iddo ddod o hyd i waith yn y dre. Roedd cytundeb tenantiaeth ein fflat hefyd bron â dod i ben felly fe ddaeth yr amser i ni benderfynu ar ein camau nesaf.

Penderfynom adael Cymru am y tro i ganfod swyddi newydd, a rhywsut roeddwn yn ystyried symud i wlad dramor. Heb iaith Ewropeaidd rhyngom, Iwerddon oedd yr unig opsiwn - ddim rhy bell o gartref, dim mor wahanol â hynny i Gymru fach, a digon o swyddi ar gael.

Fues i'n lwcus i gael swydd yn adran Adnoddau Dynol Coleg y Drindod, Dulyn, felly roedd ein cynlluniau'n dechrau siapio. Erbyn cyrraedd yr Ynys Werdd roedd George, o fewn wythnosau, yn ffodus i gael cynnig swydd mewn ysgol breifat, ac fe wnaethom sicrhau rhywle i fyw ar gyrion y ddinas. Rwyf yma yn Nulyn nawr ers tua deunaw mis, ac mae dal digon i'w wneud.

Er taw dinas fechan yw Dulyn o'i chymharu â phrifddinasoedd Ewropeaidd eraill, mae llawer gan y ddinas i'w chynnig. Un peth oedd yn apelio atom ni oedd yr holl gyngherddau, nosweithiau comedi, a theatr sydd ymlaen, yn ogystal â'r elfennau twristaidd.

Rhywbeth arall oedd yn syndod i ni oedd pa mor agos yr oeddem at fywyd cefn gwlad. Yn agos iawn mae mynyddoedd Wicklow, felly mae modd mynd yno am dro, neu i farchogaeth ceffylau ar y penwythnosau, sy'n seibiant bach o fywyd prysur y ddinas. Fel merch sy'n hoffi rhedeg, mae hefyd 'Parkrun' lleol ac mae'n gwmws yr un fath o safbwynt awyrgylch a chefnogaeth ag oedd y Parkrun yn Aber, sy'n braf tu hwnt. Ond dwi'n dal heb gael George i ymuno a mi!



Yvette Evans

Mae'r bobl yma hefyd yn hynod o gyfeillgar. Doeddwn i ddim yn siŵr beth i'w ddisgwyl gan fod pobl yn dueddol i gadw at eu hunan mewn dinasoedd, ond rydym wedi cwrdd â llawer o bobl sydd wedi'n helpu i ymgartrefu yma. Hyd yn oed ar y daith fewn i'r gwaith ar y bws, neu yn y caffiau - mae pobl wastad yn barod i sgwrsio. Rwyf heb fentro gyda'r iaith Wyddeleg eto. I fod yn onest (a tamed bach yn ddiniwed) roeddwn yn gobeithio fod fy sgiliau Cymraeg am fod o fantais i mi wrth ei dysgu, ond mae 'Gaeilge' yn gymhleth tu hwnt. Sticio at gael y sillafu ac ynganu enwau'n gywir yn gyntaf dwi'n credu, ac yna mentro ar y brawddegau!

Mae'r amser wedi hedfan ond rhywbeth sydd heb dawelu yw'r cwestiynau gan ein ffrindiau, cydweithwyr, a phobl sy'n nabod ein hacen Brydeinig, am Brexit. O siarad gyda Mam a Dad yn aml, sai'n credu fod unrhyw un yn gwybod beth sydd am ddigwydd nesaf o'r naill ochr i'r dŵr i'r llall, ond mae modd dweud bod paratodau ar y gweill yma petai Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb yn ei le. Yn naturiol, rydym wedi bod yn cwestiynu ein dyfodol yma yn Nulyn, ac er mai rhywbeth dros dro oedd gadael Cymru, mae'n syndod sut yr ydym wedi ymgartrefu yma mor gyflym. Dydyn ni ddim cweit yn barod i adael yma eto.

Mae gyda ni ddigon o bryderon am oblygiadau Brexit, ond rydw i a George yn hynod o lwcus ein bod yn ddinasyddion Prydeinig, gan fod cytundeb rhwng Iwerddon a Phrydain sy'n dyddio nôl cyn i'r Undeb Ewropeaidd gael ei sefydlu, sef y Cytundeb Teithio Cyffredin. Diolch i hyn bydd ein swyddi a'n hawl i fyw yma yn ddiogel, ond mae llawer o oblygiadau eraill o'n blaenau pe bai 'no deal' yn digwydd.

Y cysur mwyaf o fyw yn groes i'r dŵr o Gymru fach yw pa mor gyfleus yw hi i ddod adref a gweld pawb, ond ein prif bryder am Brexit yw pa mor hawdd fydd dod nôl i'r wlad hon, yn enwedig gyda'm car a'r ansicrwydd am ddilysrwydd fy yswiriant / trwydded yrru. Er taw cymhlethdod bach gall hyn fod, mae'r hiraeth wedi taro arnaf, a'r holl amseroedd o fod gartref yn Nhal-y-bont, lan Allt y Crib ymhlith y coed, yn crwydro'r brynau cyfarwydd o'm cwm pas a'r bywyd Cymreig yn gyffredinol. Dim ond nawr rwyf wedi sylweddoli fy mod wedi'u cymryd yn ganiataol ar hyd fy holl oes.

Yvette Evans

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Ar ddechrau ein cyfarfod fis Mai, llongyfarchwyd Betty Jenkins ar ennill dwy wobwr gyntaf gyda'i gwaith llaw yng Ngŵyl Fai Merched y Wawr Rhanbarth Ceredigion ar 11 Mai.

Yna croesawyd y gohebydd a'r newyddiadurwraig Sara Gibson atom. Sara yw gohebydd BBC Cymru ar lein ac yn llais cyfarwydd ar y radio'n adrodd straeon a rhannu newyddion. Soniodd sut y bu i eiriau a straeon ei chyfareddu tra'n tyfu i fyny yng Nghaerdydd a hyn yn ei dro yn ei harwain i ddilyn cwrs yn y brifysgol ac yna gyrfa fel gohebydd yn yr Uned Wleidyddol newydd sbon yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Adroddodd am y profiadau amrywiol a ddaeth i'w rhan wrth fynd ar ôl stori – rhai'n well na'i gilydd!

Pwysleisiodd fod elfen o fod yn y lle iawn ar yr amser iawn wrth ddod ar draws stori o bwys ac amlinellodd y newidiadau a'r datblygiadau technolegol sydd wedi cymryd lle yn y byd gohebu.

Diolchodd Mair Rowlands i Sara am roi blas i ni o fywyd a gwaith newyddiadurwraig a hynny mor fywiog a diddorol.

I gloi ein cyfarfod mwynhawyd lluniaeth wedi ei baratoi gan Ann a Mair.

Codi arian ac ymwybyddiaeth am Alzheimer's

Mae merched Alan Prytherch, Ffwrnais a Thal-y-bont gynt, wrthi'n codi arian ar gyfer y Gymdeithas Alzheimer's gan fod eu tad yn dioddef o Alzheimer fasgwlaidd a bellach yn derbyn gofal yng nghartref Hafan y Waun, Aberystwyth.

Bydd Anna, Carys, Rachel ac Esther, yn trefnu nifer o ddigwyddiadau lleol i godi ymwybyddiaeth am y clefyd creulon hwn ac arian ar gyfer y Gymdeithas.

Ar 1 Mehefin cynhaliwyd cinio aawns yng ngwesty'r Marine yn Aberystwyth, gan godi dros £800 drwy werthiant tocynnau, raffl a rhoddion caredig.

Ar Sul y Tadau, 16 Mehefin rhwng 11.30yb – 2.30yp, fe fydd Rachel yn arwain sesiynau ffitrwydd ar y bandstand yn Aberystwyth; bydd digwyddiad pacio bagiau yn Morrisons ar 13 Gorffennaf, ac mae Sue, partner Alan, yn trefnu cystadleuaeth golff yn y Borth ddydd Mercher 7 Awst.

Mae modd cyfrannu drwy wefan justgiving.com/fundraising/annaprytherch



Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

CYMDEITHAS
TREFTADAETH
LLANGYNFELYN

**HANES Y
CERDYN POST**

GARETH WILLIAM JONES
(Sgwrs yn Saesneg)

7:30 Nos Fawrth
25 Mehefin 2019
Llanfach Taliesin

**GWASANAETH
GARDIO MYNACH**

Torri Porfa, Sietynau,
Tirlinio a Chwynu
Dal Gwaddod
Gwasanaeth cyfeillgar a
phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
01974 261758
07792457816

mynachgarden@yahoo.com

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)
Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

**James
Memorials**

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Buyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL

Blac

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

Hen Arian (Rhif 2)

Ar gorn erthygl gynhwysfawr a diddorol Ioan Lord am fwyngloddio yn rhifyn mis Mai o Bapur Pawb gweler rhan o erthygl ysgrifennwyd gan John Lewis, awdur y llyfr am Aberystwyth, 'Born on a Perilous Rock'.

Roedd yn gymydog i minnau pan oeddwn yn byw yn Llanbadarn Fawr ac ambell dro bŵm i'w weld pan oedd yn gaeth i'r tŷ gan ei fod yn hanesydd â straeon gwerth eu clywed.

Yn ei feddiant roedd nifer o erthyglau'n olrhain teithiau o Aberystwyth i'r de, dwyrain ac ar hyd yr A487 i Dal-y-bont a thu hwnt. Ei fwriad oedd gosod y rhain yn y swyddfa dwristiaeth fel bod pobl yn gallu eu cymryd a dysgu rhywfaint am hanes y cylch wrth deithio. Doedd yr erthyglau ddim yn ffit i'w gosod yn unman, roeddynt wedi eu teipio'n flêr ganddo felly gosodais nhw yn dachus a'u cyflwyno iddo yn eu ffurf orffenedig.

Mae'n sôn, fel mae Ioan Lord y mis diwethaf, am Almaenwyr yn dod i Brydain ar gais y Frenhines Elisabeth i archwilio a datblygu'r diwydiant mwyngloddio. Ym 1560 mae cofnod o ŵr o'r enw Daniel Hochstetter yn byw yn Nhal-y-bont. Bron i ganrif yn ddiweddarach roedd y tir a'r mwynfeydd yn nwylo un o'r enw Thomas Bushell, un o ffefrynnau Siarl 1af.

Wedi blynyddoedd lawer o fwyngloddio aneffeithiol ac esgeulus roedd y mwynfeydd dan ddŵr. Dechreuodd Bushell eu draenio drwy yrru lefelau mewn i Allt y Crib o lawr y glyn gan ddefnyddio system yr Almaenwyr.

Wedi bron i bedair blynedd aflwyddiannus dyma gofnod asiant Bushell o'r hyn ddigwyddodd ar 27 Mehefin 1631:

"the four workmen about one in the night withdrew to take Tobacco within ten fathoms of the Adit's mouth, lest in the forefield it should damp the ayre... Their smokie banquet was not yet at an end when they heard a almighty and fearfull noise which some of them said was thunder. But old Bartholmew Clocker... resolved suddenly 'the worke is holed, come let us away'. No sooner had they gotten the free ayre but out gusheth the torrent of water with an incredible fury, such a breach it made in the solid Rock that it rose fully a Yards height at the Adit's mouth... affrighting the people of Talybont who heard the noise and felt the water in their houses".

Dywed John Lewis bod ceg yr adit i'w weld ar ochr dde y ffordd wrth deithio lawr i'r pentref. Parhaodd y mwn y cylch tan ddiwedd y 19eg ganrif.

Hyd yn oed heddiw gwelir nifer o ddynion yn mentro mewn i'r hen adits o Allt y Crib ac yn teithio tan ddaear dan yr afon i gyfeiriad Berthlwyd. Rhagor am hyn i ddilyn.

Rhys Huws



Adit ar ochr y ffordd rhwng Dôl-y-bont a Thre Taliesin ger Capel Bethania. Y 15fed dŵr butraf yng Ngheredigion



C.Ff.I. Tal-y-bont

Bu aelodau C.Ff.I. Tal-y-bont yn cystadlu'n frwd yn Rali Lledrod a gynhaliwyd eleni ar Fferm Ynysforgan ar ddydd Sadwrn 1 Mehefin gan gyrraedd y 5ed safle ar ddiwedd y dydd gyda 139 o farciau.

Unwaith yn rhagor bu'r Clwb yn llwyddiannus gyda'r cystadleuthau barnu stoc. Tîm y Barnu Gwartheg Duon Cymreig yn cipio'r wobwr gyntaf sef Dewi Jenkins, Tyngraig a Bedwyr ac Ynyr Siencyn, Tanrallt. Dewi yn dod i'r brig hefyd o dan 26, Bedwyr yn 3ydd o dan 21 oed ac Ynyr yn 3ydd hefyd o dan 16 oed. Daeth Catrin Davies yn gydradd 5ed yn cystadlu fel unigolyn o dan 26 oed. Daeth y Tîm Barnu Merlod Mynydd Adran A yn 6ed sef Rhydian Evans, Neuadd Fawr, Alwenna Jenkins, Ynysgreigiog a Lois Jones, Pantyperan gydag Alwenna'n gyntaf o dan 26 oed a Lois yn 6ed o dan 16 oed. Cipiodd y tîm barnu Defaid Mule Cymreig y 6ed safle sef Richard Jenkins, Ynysgreigiog, Teleri Morgan, Pwllglas a William Jones, Caergywydd gyda Bedwyr Siencyn yn cystadlu fel unigolyn yn cipio'r 3ydd wobwr o dan 16 oed. Daeth Tal-y-bont yn ail am y clwb gorau ar draws yr holl gystadleuthau barnu stoc.

Cipiodd y criw yn y Gystadleuaeth Canu y wobwr gyntaf gyda Beca Williams yn dod i'r brig am ganu fel unigolyn a'r grŵp yn gyntaf hefyd.

Daeth criw Arddangosfâr Prif Gylch yn bedwerydd am bortreadu arddangosfa adloniant i blant a llongyfarchiadau mawr i Bedwyr Siencyn, Tanrallt am gipio'r wobwr gyntaf am Drin Gwlân.

Llongyfarchiadau i Dewi Jenkins, Tyngraig am gipio'r wobwr gyntaf am Gneifio o dan 26 oed ac i Anwen a Sara Jenkins, Tyngraig am gipio'r 4ydd wobwr am greu Eitem i Gyfleu Hwiangerdd.

Yn y gystadleuaeth i'r aelodau daeth Tal-y-bont yn 6ed gyda Seren Pugh yn 3ydd yn y Crefft gyda Haf Evans a Catrin Davies yn 6ed am Goginio, a Lili Lewis yn Gosod Blodau.

Diolch o galon i'r arweinyddion a'r hyfforddwyr am roi o'u hamser gyda'r ymarferion a phob lwc i'r aelodau fydd yn cystadlu ar ran Ceredigion yn y Sioe Fawr mis nesaf.



Cywiriad

Roedd yr erthygl ddifyr gan Ioan Lord am y diwydiant mwyn lleol a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf yn cynnwys tri llun ond yn anffodus roedd y capsionau yn anghywir. Dyma'r lluniau eto gyda'r capsionau cywir.



1 Ymwithio drwy'r lefel arch ('coffin-level') bynafol uwchlaw Llwynadda

2 "Carreg Llwyd y Rhych" o Erglodd, a ddefnyddiwyd dros 4,000 o flynyddoedd yn ôl

3 Mynedfa Lefel Ddofn Alltcrib, y tu ôl i'r Black Lion, c.1872.


6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576



Llwyddiant yn felys i Licris Olsorts a Doli Micstiyr

Daeth tlws coffa'r diweddar Buddug James Jones yn ôl i'w chynffwrdd eto eleni wrth i gwmni drama Licris Olsorts gipio'r wobwr gyntaf - am yr ail dro'n olynol - am actio drama fer yn y categori agored yng Ngŵyl Ddrama Corwen a gynhaliwyd rhwng y 9fed a'r 11eg o Fai.

Cafodd y cwmni ganmoliaeth uchel am eu perfformiad o 'Ni'n Dwy' gan Nan Lewis, (c) Gwasg Gomer, ac enillodd Gwenllian King wobwr y prif actor dan 18 oed am ei phortread o Mari yn y ddrama. Cafodd yr actorion eraill yn y cast, Sharon King a Sioned Morris, ganmoliaeth uchel hefyd gan y beirniad, Steffan Parry o Wyddelwern.

Yn ogystal fe enillodd cwmni Doli Micstiyr y wobwr gyntaf am actio drama fer yn y categori dan 18 oed am eu perfformiad o ddrama Emyr Edwards, 'Adolff' a ysgrifennodd yn arbennig ar gyfer cwmni Licris Olsorts wedi iddynt ddod i'r brig gydag un arall o'i ddramâu yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala yn 2009. Mae'r cwmni wedi profi sawl llwyddiant ers iddo gael ei ail-ffurfio yn 2015.

Enillodd Oisín Lludd Pennant y wobwr gyntaf am berfformio monolog agored hefyd, gan ddod â chyfanswm y gwobrau ddaeth i'r ardal eleni i bedwar.

Dywedodd Sion Pennant, fu'n cynhyrchu'r ddau gwmni (ac yn hyfforddi Oisín) ei bod yn hyfryd bob amser i ennill tlws coffa Buddug James. "Mae bob amser yn bleser cystadlu yng Ngŵyl Ddrama Corwen," meddai, "a dw i'n hyderus y byddai Buddug yn falch iawn fod y ddau gwmni wnaeth hi eu sefydlu yn dal i berfformio, a chystadlu, ac yn cael tipyn o lwyddiant wrth wneud!"

Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn bleser bob amser i weithio gydag aelodau'r ddau gwmni. "Mae cynhyrchu drama - heb sôn am dair! - yn cymryd llawer o waith, ac mae ymroddiad pob un sydd wedi bod ynghlwm â'r ddau gwmni bob amser yn ffantastig - yn enwedig rhieni criw'r Dolis. Dw i'n ddiolchgar iawn iddyn nhw i gyd am eu cefnogaeth."

Bu'r ddau gwmni'n brysur yn ddiweddar rhwng cystadlu yng ngwyliu Corwen a'r Groeslon, a nifer o berfformiadau yng Ngŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion a gynhaliwyd yn yr ardal yn ddiweddar.

Bydd Licris Olsorts yn cystadlu gyda 'Ni'n Dwy' yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy am 11:00 ddydd Llun y 4ydd Awst yn y Pentref Drama. Os byddwch yn Llanrwst, dewch i'w cefnogi, ac i wyllo'r ddrama arbennig yma gan Nan Lewis.



Bwyd i Bawb

Ydy 'Bwyd Blasus Bethel' yn golygu unrhyw beth i chi?

Cafodd y llyfryn bach gwyrdd yma le teilwng mewn nifer o geginau yn yr ardal, ymhlith llyfrau ryseitiau gan Delia, Jamie, Nigella a'u tebyg.

Ffrwyth llafur criw dosbarth ieuencid yr Ysgol Sul yn y flwyddyn 1999 oedd y cyhoeddiad, a'i gynnwys yn llawn o ryseitiau gan aelodau a ffrindiau Capel Bethel Tal-y-bont ar y pryd. Cyfrannwyd gwerthiant y llyfryn i Brosiect Plant Chernobyl, oedd yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd yn Belarus yn dilyn y drychineb niwclear yno.

'Bywyd i Bawb' yw'r teitl a roddwyd ar ymgyrch 2018-19 Undeb yr Annibynwyr yng Nghymru. Nod yr apêl yw codi arian fydd yn y pendraw yn cefnogi prosiectau dyngarol ym Madagascar, un o wledydd tlotaf y byd.

Felly a hithau'n ugain mlynedd yn ddiweddarach, penderfynwyd mai da o beth fyddai mynd ati i greu fersiwn newydd o'r llyfryn rysâit er mwyn cefnogi'r apêl. A dyma fynd ati i greu 'Bwyd i Bawb'.


Penderfynwyd mai peth doeth fyddai cadw ambell rysâit o'r gyfrol gyntaf gan mai nifer fechan o gopiau sydd wedi goroesi, a'r rheini'n grwst o farjarin a phowdwr coco erbyn hyn! Rydym yn hapus i gyflwyno un neu ddau o'r 'hen ffefrynnau' i genhedlaeth newydd o gogyddion.

Diolch yn fawr i aelodau a ffrindiau Capel Bethel Tal-y-bont am rannu eu ryseitiau gyda ni, ac i'r criw bychan ond gweithgar am eu cymorth gwerthfawr sef Megan Mai am gysodi, Eleri Huws am olygu, Ceri Jones am ddylunio a Lois Jones am y darluniau. Diolch arbennig hefyd i'r Lofa am eu nawdd hael tuag at gynhyrchu'r gwaith.

Cynhelir gwasanaeth arbennig am 11 ar fore Sul, Mehefin 16 ac yna byddwn yn lansio'r gyfrol mewn cinio cawl yn y Neuadd Goffa yn dilyn yr oedfa. Dewch yn llw i gefnogi, i gymdeithasu ac i ddathlu Sul y Tadau mewn steil!

Bydd 'Bwyd i Bawb' ar gael am £5 ar y diwrnod gyda phob ceiniog yn mynd at yr apêl haeddiannol hwn.

Os bydd copiau yn weddill bydd modd eu prynu yn lleol neu drwy gysylltu gyda Helen Jones ar 01970 832760.



Ysgol Penweddig

Yn ddiweddar, cafodd Nia Benham a Ffion Hicks, Llangynfelyn, y fraint o glywed eu cyfansoddiadau cerddorol yn cael eu perfformio gan y grŵp the 'Hermes Experiment' mewn gweithdy a drefnwyd gan y cyfansoddwr Lynne Plowman a Cherddorion Ifanc Dyfed.

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont





Ian o flaen hen ddreser llawn llestri Capel Bethel, Talsarnau

O Ysgol i Fusnes

Sawl tro yn y blynyddoedd diwethaf rydyn ni i gyd wedi pasio drwy Dre Taliesin ac ystyried tranc yr ysgol? A fydd hi'n cau? Ble fydder plant yn mynd petai'n cau? Beth fydder'n digwydd i'r adeilad wedi hynny?

Wel, caeodd yr ysgol ddwy flynedd yn ôl ac aeth y plant i wahanol ysgolion, nifer dda i Dal-y-bont. Bu'r ysgol ar werth am gyfnod hir ond wyth mis yn ôl gwerthwyd hi.

Crwt lleol brynodd Ysgol Llangynfelyn, un a gafodd ei fagu a'i addysg yn Nhal-y-bont, ac a symudodd oddi yma, er nid ymhell, i'r Borth. Denwyd Ian Williams, Cymro Cymraeg, i brynu'r ysgol a'i throï'n fangre i gasglu a gwerthu hynafolion a phethau adferedig (antics a salvage i chi a fi!).

Saer oedd Ian ond yn dangos diddordeb ers oesoedd mewn hen bethau. Wedi cael anaf drwg i'w gefn gwelodd y cyfle i droi ei hobi mewn i'w fywoliaeth a chymerodd y cam eithaf y llynedd a phrynu hen ysgol Llangynfelyn. I chi'r hen ddisgyblion, achubwyd y plac a fu am genedlaethau ar y wal y tu fas ac fe'i welir ar y tu mewn.

Pan brynwyd yr ysgol bu rhaid gwneud llawer o waith adfer cyn dechrau ar y gwaith o droi hen ysgol yn fusnes. Bu'r ysgol yn wag am gyfnod, roedd pob ffenestr wedi torri ac effaith y glaw ar y tu fewn. Wrth gwrs roedd yr ystafelloedd fel yr oeddynt pan adawodd y plentyn olaf - roedd y gegin fel ag yr oedd a'r partiwsn hefyd.

Erbyn heddiw, er bod y tu mewn dal i fod yn debyg i ysgol, ychwanegwyd mezzanine i gael mwy o ofod i arddangos y trugareddau amrywiol - celfi mawr a bach, lluniau, gemau, cadeiriau eisteddfod, lampau, llestri, drychau a llawer mwy o bethau safonol a diddorol.

Yn yr iard, ble unwaith bu plant yn chwarae, mae llawer o'r pethau a achubwyd wedi'u gosod yn drefnus ac yn ddeniadol.

Teithia Ian ledled Cymru a thu hwnt i brynu ond ei arbenigedd yw hen bethau Cymreig.

Rhyw ddydd bydd y rhan helaeth o'r adeilad, nad yw eto wedi'i ddatblygu, yn gartref i Ian, Pippa ei bartner a Megan ond ar hyn y bryd y flaenoriaeth yw sefydlu, datblygu a llwyddo gyda'r fenter newydd.

O ble ddaeth yr enw? Nid yw'n cyfeirio at *Toad of Toad Hall* allan o *Wind in the Willows* gan Kenneth Grahame ond at ryw beth mwy lleol sef hanes llyffant, rhan o chwedl sy'n gysylltiedig efo Cors Fochno. Dywed Ian bod Toad Hill gerllaw Craig y Penrhyn, ac o fewn golwg, felly rhoddodd **Toad Hall Antiques** fel enw i'r busnes.

O'r diwedd mae'r hen ysgol, sori Toad Hall, ar agor i ymwelwyr o ddeg y bore ac mae croeso i chi daro mewn.

Trish a Rhys Huws

Y Gair Olaf



Bûm yn crwydro tipyn yn ddiweddar, ac ar ôl penderfynu ble i fynd ar wyliau mae'n braf cael rhywbeth i edrych ymlaen tuag ato.

Ddechrau mis Mai aethom ar fordaith o Fae Caerdydd i ymweld â Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Gogledd a Gwlad yr Iâ, a phob gwlad gyda'i golygfeydd hynod, ei chwedlau a'i rhyfeddodau ei hun. Gwelsom y *Giant's Causeway* yng Ngogledd Iwerddon lle mae'r colofnau a'r cerrig chweonglog a ffurfiwyd filiynau o flynyddoedd yn ôl yn disgyn o'r mynydd i'r môr. Tórshavn yw prif ddinas Ynysoedd y Faroe lle mae tai gyda gwair yn tyfu ar y to yn rhan hynafol y dref. Mae sawl llosgfynydd a rhewlif yng Ngwlad yr Iâ, a rhyfeddod oedd gweld sawl *geysir* yn chwydu dŵr poeth i'r awyr yn rheolaidd.

Wedyn euthum gyda'r merched i Kraków, Gwlad Pwyl. Cerddasom lawr gannoedd o risiau i grombil Mwynglawdd Halen Wieliczka i weld y capeli a'r cerfluniau a gerfiwyd gan y mwynwyr allan o'r halen. Nid oedd ymweliad â'r wlad yn gyflawn heb fynd i wersyll erchyll Auschwitz-Birkenau, gan brofi'r teimlad o anghrediniaeth am yr hyn a welsom ac a glywsom yno.

Ond peidiwch â meddwl mai dim ond gwledydd tramor sy'n fy nenu! Rwy'n crwydro'n rheolaidd o amgylch Cymru hefyd: rhyfeddu at gaer Rufeinig Tomen y Mur ger Trawsfynydd, gweld dyffryn Dysynni ar ei orau o ben Castell y Bere, a'r rhain ond ychydig o'r lleoliadau eraill y bûm ynddynt yn ddiweddar.

Ydy, mae'n braf teithio ar draws y byd, ond Cymru yw'r wlad orau – nid oes unman yn well nac yn debyg i'n golygfeydd godidog ni yma.

Carys Briddon

3... 2... 1... go!

Mae'r alwad adnabyddus yna i drigolion Tal-y-bont megis deufs i ffwrdd. Ie, dim ond dau fis i fynd tan Sioe Tal-y-bont a'r Cneifio Cyflym!

Bydd CFFI Tal-y-bont a'r Cylch yn cynnal y digwyddiad unwaith eto eleni a bob blwyddyn rydym yn edrych i ehangu a gwella'r gystadleuaeth.

Rydym yn galw ar unrhyw berson gall ein helpu i greu system

amseru a fydd yn rhedeg yn awtomatig gyda'r peirannau cneifio er mwyn hwyluso'r broses amseru.

Os ydych yn meddwl gallwch ein helpu neu yn adnabod rhywun fydd yn gallu creu system o'r fath, yna plis gadewch i ni wybod trwy gysylltu â'r Cadeirydd, Anwen Jenkins, Tynygraig ar 07597 992650.



Hirddydd Haf

Mochyn Rhost a Noson Werin Awyr Agored

Er budd Eisteddfod Ceredigion 2020

Nos Sadwrn 22 Mehefin 2019 • Rhwng 6.00 a 9.00 yr hwyr ar Fferm Ffwrnais, Ffwrnais trwy garedigrwydd John a Non Griffiths

Bwyd, bar, diodydd poeth/ysgafn ac adloniant • Mynediad trwy docyn Oedolion £10 Plant Cynradd £3 (Pris yn cynnwys bwyd)

Tocynnau ar gael oddi wrth:

John a Non Griffiths 01654 781264, Bethan Davies 01970 832244
Rhian Evans 01970 832344, Fal Jenkins 01970 832560

CHWARAEON

Gruff yn cipio Pencampwriaeth Cymru

Mae un o feicwyr ffordd gorau Cymru wedi cyrraedd y brig unwaith eto, wyth mlynedd ers iddo gwblhau'r gamp am y tro cyntaf.

Wedi 80 milltir ar y ffyrdd o amgylch Rhuthun a Chorwen yn brwydro'r gwynt a'r glaw, coronwyd Gruff Lewis o Dal-y-bont yn Bencampwr Rasio Ffordd Cymru ddydd Sul 2 Mehefin.

Roedd Gruff yn un o chwech lwyddodd i ddianc o grafangau'r peloton wedi tua 40 milltir o rasio. Ac wedi ychydig llai na thair awr yn y cyfrwy, profodd yn drech na'r pump arall wrth wibio tua'r llinell derfyn.

Bellach, ac yn unol â thraddodiad y byd beicio, mae ei dîm, Ribble Pro Cycling, wedi comisiynu cit coch arbennig iddo i'w wisgo mewn rasys am y flwyddyn nesaf.

"Mae ennill Pencampwriaeth Cymru am yr ail waith yn anhygoel", dywedodd Gruff, sydd yr un mor gyfarwydd i ddarllenwyr Papur Pawb fel perchennog Caffi Gruff yn Nhal-y-bont.

"Rwy'n proud iawn ym mod nawr yn cael gwisgo'r crys coch mewn rasys a dangos taw Cymro ydw i. Mi fydd hi hefyd yn neis gwisgo rhywbeth ar wahân i ddillad du arferol y tîm, er rwy'n siŵr y bydd hyn hefyd yn fy ngwneud yn darged i ambell un."



"Roedd yn ddiwrnod arbennig ac roedd cael fy ngheulu yno gyda fi, yn enwedig fy mab Guto, yn golygu lot fawr i fi."

Daeth ei lwyddiant gwta 24 awr wedi iddo sicrhau'r bedwaredd safle ym Mhencampwriaeth Rasio yn Erbyn y Cloc Cymru a gynhaliwyd hefyd yn Rhuthun, ac wythnos wedi iddo ddod yn ail ym Mhencampwriaethau Criteriwm Cymru tra'n rasio o amgylch strydoedd Aberystwyth.


Pencampwriaeth Rasio Ffordd Prydain fydd yn cael eu chynnal yn Norwich ddiwedd mis Mehefin yw ei flaenoriaeth nesaf, a'i obaith yw y bydd Ribble Pro Cycling yn cael gwahoddiad i brif ras Prydain, Tour of Britain, ym mis Medi.

Ond, yn y cyfamser, mi fydd yn ymuno â thîm seiclo arall fel sylwebydd ar Le Tour de France, fydd i'w gweld yn fyw ar S4C yn ystod mis Gorffennaf.

Llongyfarchiadau i Dylan Wyn Benjamin ar ei lwyddiant gyda thîm dan 19 oed Aberystwyth sydd wedi ennill y gynghrair a chwpan JD Uwchgynghrair Cymru. Yn y rownd derfynol curwyd Derwyddon Cefn ar faes y Drenewydd.



Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (golygydd@papurpawb.com) neu ffoniwch ef ar 832560.



Y rhwyfwr yn cyrraedd Aberystwyth (llun drwy garedigrwydd Wil Troughton)

Y Sialens Geltaidd

Bob yn ail flwyddyn mae timau o Gymru, Iwerddon, Lloegr ac eraill yn rhwyfo dros nos o Arklow yn Iwerddon yn ôl i Aberystwyth, sef y Sialens Geltaidd.

Roedd tri o drigolion Tal-y-bont yn rhan o dîm Cymysg Feteran Aberystwyth, sef Dai Dowsett (Is-y-coed) a Mick a Jenny Fothergill (Minafon). Nid dyma'r tro cyntaf iddynt gystadlu yn y ras sy'n golygu rhwyfo pellter o 90 milltir fôr (rhyw 103 milltir). Roedd Ben Fothergill a'i wraig Rachel Bott a hefyd Alexis Williams (Minafon) yn rhan o dîm cefnogi'r criw.

Cafwyd tywydd ffafriol eleni, gan ganiatáu amseroedd cyflym. Llwyddodd y 'mixed vets' i gyrraedd harbwr Aberystwyth mewn ychydig o dan ugain awr gan ddod yn yr wythfed safle o un deg chwech o gychod - ac yn gyntaf yn eu dosbarth nhw.

"Ddwyllydd yn ôl roedd cyflwr y môr a'r tywydd yn ein herbyn ni ac roedd rhaid i ni roi'r gorau i'r ras rhyw chwe milltir cyn y diwedd. Felly, roedden ni'n arbennig o awyddus i gwblhau'r ras eleni. Er gwaethaf un neu ddau o aelodau'r tîm yn dioddef o salwch môr, parhaodd pawb i rwyfo a gorffennodd y tîm yn gryf.

"Diolch yn fawr yn arbennig i Damian Sidnall, capten ein cwch cefnogi, ynghyd â'r tîm cefnogi, Ben, Rachel, Alexis, Louise ac Alan. Unwaith eto rydyn ni i gyd wedi dweud 'dim eto, dyna'r daith olaf', ond dyw rhywun byth yn gwybod..."

Dai Dowsett

argraffu da
am bris da



yLolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com